

**CYNGOR BWRDESITREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

**P J Lucas**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau,  
Parc Hen Lofa'r Cambrian,  
Cwm Clydach CF40 2XX**

**Ms.Karyl May, Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol Ffon: (01443) 424045**

**Fe fydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn cynnal cyfarfod ym Mhencadlys  
Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach  
(Siambr y Cyngor), brynhawn Mercher 21 Hydref 2015 am 5.00pm.**

**AGENDA**

**1 DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad (gan gynnwys datganiadau dan orchmynion chwip).

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**Tudalennau**

**2 COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd  
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2015

**1-6**

**3. COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**7 – 22**

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 30 Medi, 2015, i drafod barn Aelodau ynghylch fersiwn drafft cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) sydd yn seiliedig ar fap uno'r Gweinidog a gyhoeddwyd fis Mehefin eleni (mae'r Cyfarwyddiadau Drafft a Chwestiynau'r Ymgynghoriad ynghlwm).

Mae'r wybodaeth a gafodd ei dosbarthu yng nghyfarfod y Cyngor ar 30<sup>ain</sup> Medi, 2015 o ran y gymhareb etholwyr i gynghorwyr sy'n is nag 1:4000 hefyd ynghlwm.

**Noder:** Bydd sylwadau Gweithgor y Cabinet a'r Pwyllgor yma o ran trafod yr eitem hon yn cael eu rhannu gyda'r Cyngor cyfan ar 28<sup>ain</sup> Hydref, 2015 er mwyn llywio ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori erbyn y dyddiad cau sef 9<sup>fed</sup> Tachwedd, 2015.

#### **4. RHAGLEN WAITH Y CABINET - CYN-GRAFFU**

Derbyn Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer cyfnod o dri mis - Tachwedd, Rhagfyr 2015 ac Ionawr 2016 ac os yw'n briodol, pennu unrhyw bynciau byddai modd eu trafod gan y Pwyllgor yma neu gan y pedwar pwyllgor craffu.

**Noder:** Bydd Cyfarfod o'r Cabinet yn cael ei gynnal ar 22<sup>ain</sup> Hydref, 2015 ac felly gall Cyngorwyr ond tybio bydd y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y Cabinet yn cael ei chymeradwyo yn y cyfarfod hwnnw. Bydd copïau o'r Rhaglen Waith yn cael ei dosbarthu i'r Cyngorwyr ar ôl ei chyhoeddi.

#### **5. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR MONITRO GWEITHREDU'R ARGYMHELLION A WNAED GAN ARCHWILWYR ALLANOL – ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2014/15 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

**23 - 28**

Cyn i'r adroddiad uchod o du Swyddfa Archwilio Cymru gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 28<sup>ain</sup> Hydref, 2015, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y camau nesaf, yn enwedig o ran yr wybodaeth ddiweddaraf a fydd yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor yma ar 18<sup>fed</sup> Tachwedd, 2015 ynghylch yr argymhellion sy'n ymwneud â'r Cyngor hwn a'r cynnydd o ran bwrw'r maen i'r wal.

Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ac mae modd ei weld yma:

<http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/adroddiad-gwella-blynyddol-2014-15-cyngor-bwrdeistref-sirol-rhondda-cynon-taf>

Mae'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar dudalennau 32-36 wedi'u hatodi. Mae'r set gyntaf o argymhellion (Tudalen 23) yn ymwneud ag adolygiad "Craffu Da? Cwestiwn Da!" sydd hefyd wedi'i gynnwys yn rhan o raglen waith y Pwyllgor.

#### **6. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, ym marn y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cylchrediad:**

**Pob aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor**

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams (Cadeirydd) a M.J.Watts (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol;

J.Bonetto	P Jarman	S.Powderhill
W.J.David	(Mrs.)S.Jones	S.Rees-Owen
(Mrs.)M.E.Davies	R.Lewis	G.Smith
S.Evans	B.Morgan	P.Wasley
A.S.Fox	(Mrs.)S.Pickering	R.Yeo

**14 Hydref 2015**

